

**RYGBI TAG 7 BOB OCHR**  
**NOS WENER, 14<sup>EG</sup> MEHEFIN 2019**

**RHEOLAU RYGBI TAG MERCHED 7 BOB OCHR**

**Oedran:**

Dan 26

**Manylion tîm:**

Saith bob ochr gydag uchafswm o 5 eilydd.

Mae Undeb Rygbi Cymru yn mynnu bod y ddau dîm yn rhoi'r un faint o chwaraewyr ar y cae bob amser.

**Trefn chwarae:**

Chwaraeir y gemau grŵp am 7 munud bob ochr, gydag egwyl o ddwy funud. Chwaraeir y gêm derfynol am 10 munud bob ochr gydag egwyl o dair munud.

**Arwynebedd cae:**

50m (hyd) x 40m (lled) ar y mwyaf.

40m (hyd) x 30m (lled) ar y lleiaf.

**Maint pêl:**

3.

Ni chaniateir cicio.

Ni fydd taflriad o'r linell, yn hytrach bydd pas o 5 medr tu fewn i'r linell adlam.

Ni fydd sgrymio.

**RHEOLAU TAG:**

- Gêm i gychwyn gyda phas rydd.

-Tîm sy'n ildio cais i ail-gychwyn y gêm.

-6 tag, yna throï'r meddiant drosodd i'r gwrthwynebwyr.

-Rhaid i'r chwaraewr wedi ei dagio basio'r bêl o fewn 3 eiliad o gael ei dagio.

-Rhaid i'r taclwr ddychwelyd y tag i'r ymosodwr cyn parhau â'r chwarae. Bydd troseddu'n barhaol yn cael ei gosbi.

-Rhaid gadael a chamu ar y cae wrth y linell hanner.

-Rhaid tynnu dau tag a'u rhoi i'r eilydd sy'n dod ar y maes i'w gosod uwchben y gwregys cyn iddo/hi gael effaith.

-Rhaid i'r eilyddion wisgo gwregys heb y tagiau.

-Rhaid i chwaraewr gael dau tag cyn sgorio cais, ond os caiff tag ei dynnu wrth sgorio, caniateir y cais.

-Os bydd chwaraewr yn croesi'r llinell gydag un tag, bydd yn cael ei dynnu/thynnu'n ôl 5 medr o'r linell gais gyda chyfri'r tag yn parhau.

-Rhaid aros ar y traed wrth sgorio cais.

-Caniateir troelli oddi wrth gysylltiad gyda thaclwr.

-Ni chaniateir 'hand-off'.

-Pas rydd am bob cosb (*penalty*).

-Annogir cydio'n y bêl gyda dwy law ond nid yw'n reol rygbi tag.